EISTEDDFOD 2025

## 152. PARTI CERDD DANT
## hyd at 20 mewn nifer

*TRISTWCH PALESTEINA*
*[o weld y lladd a'r llofruddio di-ddiwedd sydd yn rhan o fywyd trigolion y Dwyrain Canol bellach]*

Unwaith, bu yno stabal. Mab Duw yn llety'r ych,
am nad oedd iddo groeso mewn tre' na gwesty gwych.
Heddiw, 'does dim 'di newid. Di-groeso'r stabal lom.
Herod sy'n rhodio'r strydoedd gan danio gwn a bom.

A chwi, y mwyn fugeiliaid, â'ch syndod wrth y crud,
lle 'roedd y baban bychan yn ddiddig, wyn ei fyd.
Fe gollwyd diniweidrwydd mewn byd di-feind fel hwn.
Yr hyn sy'n bwysig heddiw yw grym y cledd a'r gwn.

Angylion ddaeth i ddangos eu parch i'r baban glân,
a'u harmoniau nefol a lanwai'r byd â chân.
Ond heddiw 'Mhalesteina, mor drist pob bryn a phant,
a'r mamau oll yn wylo wrth weld llofruddio'u plant.

Fe ddaeth brenhinoedd daear i Fethlem, 'nôl y gair,
i weled Brenin Heddwch, gan blygu yn y gwair.
Ond mae arweinwyr heddiw yn ddall i neges Hwn,
gan gredu mai yr ateb bob tro yw bom a gwn.

Tywysog ein Tangnefedd. O clyw ein gweddi 'nawr.
Ymbiliwn am gael heddwch. Dyna'n dyhead mawr.
O gwna ni oll yn addfwyn. Tangnefedd rho i ni,
a'r unig rym a geisiwn yw grym Dy gariad Di.

**ALED LLOYD DAVIES**